**EITEM AR YR AGENDA: 11**

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU
# ADRODDIAD AR GYFER PANEL GWEITHREDOL YR AWDURDOD TÂN

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 31ain Ionawr 2005 |
| ADRODDIAD GAN: | **Y PRIF SWYDDOG TÂN** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Rhoi gwybod i'r Aelodau am y treialon sydd i ddod ar gyd-ymateb fel sydd yng Nghynllun Integredig Rheoli Risg yr Awdurdod. |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod y Cynllun Integredig Rheoli Risg cyntaf wedi ei gymeradwyo a'i fabwysiadu gan yr Awdurdod Tân ym Mawrth 2004.

1.2 Mae'r Cynllun Risg yn cynnwys adran o'r enw "Yr Heriau i Ddod" sy'n datgan bod yr Aelodau, wrth gasglu gwybodaeth, wedi adnabod nifer o feysydd lle roeddent yn teimlo, o gael rhagor o amser ac ymchwil, y byddent yn dymuno llunio safbwynt arnynt.

1.3 Un o'r meysydd hyn yw "cyd-ymateb", ac mae'r papur hwn yn rhoi gwybod i'r Aelodau fod treialon yn cael eu cychwyn er mwyn deall rhagor am oblygiadau mabwysiadu'r cynllun, a darparu adroddiad llawn i'r Aelodau am ganfyddiadau'r treialon.

2. **CEFNDIR**

2.1 "Cyd-ymateb" yw anfon adnoddau'r Gwasanaeth Tân ac Achub ar yr un pryd â rhai'r Ambiwlans at argyfyngau meddygol sy'n peryglu bywyd mewn llefydd lle mae adnoddau'r Gwasanaeth yn haws eu cael.

2.2 Y bwriad yw darparu gwasanaethau achub bywyd ychwanegol gydag ymateb cynt i gymunedau lleol.

2.3 Byddai cyd-ymateb yn golygu hyfforddi diffoddwyr tân, a chynnal medrusrwydd mewn technegau adfer bywyd, gan gynnwys defnyddio diffibrilwyr.

3. **GWYBODAETH**

3.1 Mae pennod 4 yn y drafft 'bron yn derfynol' o Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyfer Cymru yn sôn am "Ymateb Effeithiol". Yn is-adran 14 o'r bennod benodol hon mae Llywodraeth y Cynulliad yn dweud mai nod ymateb brys yw gostwng nifer y marwolaethau a nifer yr anafiadau a difrifoldeb yr anafiadau hynny, ac y dylid, os gellir gwella'r canlyniadau, wneud hynny trwy gydweithio gyda darparwyr gwasanaethau eraill.

3. **GWYBODAETH** *(parhad)*

3.2 Mae'r is-adran honno yn mynd yn ei blaen gydag enghraifft ddisgrifiadol o'r cynllun cyd-ymateb yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, ac mae'n canmol ei lwyddiant a'i ledaeniad pellach. Mae'r adran yn cloi gyda'r datganiad hwn, "Rydym yn credu y dylid ehangu'r cynlluniau hyn i gwmpasu pob ardal o Gymru a byddwn yn cefnogi trafodaeth rhwng yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru a'r gwasanaeth meddygol ac ambiwlans i archwilio manteision a goblygiadau pellach hyn, efallai ar sail blaenoriaeth yn y lle cyntaf."
(cyfeithiad answyddogol)

3.3 Mae trafodaethau cwmpasu eisoes wedi cymryd lle gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Mae'r trafodaethau hyn wedi cynnwys dethol, goruchwylio, categoreiddio galwadau, anfon allan, cyrraedd y safle, a hyfforddiant.

3.4 Byddai gan yr Ymddiriedolaeth ddiddordeb mewn cydweithio ar gyfres o dreialon mewn nifer gyfyngedig o orsafoedd, yn bennaf yng ngorllewin ardal y Gwasanaeth.

3.5 Cafwyd sicrwydd mai dim ond at ddigwyddiadau y mae'r Ymddiriedolaeth wedi eu nodi gan System Dosbarthu ar sail Blaenoriaeth Feddygol Uchel (*Advanced Medical Priority Despatch System (AMPDS)*) fel rhai sy'n peryglu bywyd y byddai adnoddau'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn cael eu hanfon allan.

4. **CASGLIAD**

4.1 Byddai cynnal treialon ar gyd-ymateb yn rhoi'r arwydd gorau posib o ystod lawn goblygiadau y cynllun ar gyfer y gymuned a'r Gwasanaeth. Byddai hefyd yn darparu tystiolaeth ffeithiol o'r gwir gostau a'r ymrwymiad sydd ei angen i gynnal y cynllun.

5. **ARGYMHELLION**

5.1 Bod yr aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.

5.2 Bod yr aelodau'n derbyn adroddiad yn nhrydydd chwarter 2006, ynghyd â dadansoddiad cynhwysfawr o'r treialon cyd-ymateb, ac argymhelliad ar gynaladwyedd ymgymryd â'r cynllun.